# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 10 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwaith sydd yn yr arfaeth i wella cefnffyrdd ym Mhowys yn ystod 2010/2011 gyda dyddiadau'r gwaith a'i gost. (WAQ56061)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwaith sydd yn yr arfaeth i wella cefnffyrdd yng Ngwynedd yn ystod 2010/2011 gyda dyddiadau'r gwaith a'i gost. (WAQ56062)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwaith sydd yn yr arfaeth i wella cefnffyrdd yng Ngheredigion yn ystod 2010/2011 gyda dyddiadau'r gwaith a'i gost. (WAQ56063)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwaith sydd yn yr arfaeth i wella cefnffyrdd yn sir Gaerfyrddin yn ystod 2010/2011 gyda dyddiadau'r gwaith a'i gost. (WAQ56064)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwaith sydd yn yr arfaeth i wella cefnffyrdd yn sir Benfro yn ystod 2010/2011 gyda dyddiadau'r gwaith a'i gost. (WAQ56065)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Gweler y tabl isod am fanylion y cynlluniau i wella cefnffyrdd yn y siroedd dan sylw. Caiff ystod eang o fân welliannau eraill eu cynnal drwy gydol y flwyddyn sy'n ymwneud yn bennaf â diogelwch.

| CYNLLUN | ARDAL | DYDDIAD Y GWAITH | GWARIANT AMCANGYFRIFEDIG YN 2010/2011 |
|---|---|---|---|
| A470 Cwm-bach i Bontnewydd-ar-Wy | Powys | Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2010. Rhagwelir y daw'r gwaith i ben yn ystod gaeaf 2011. | £27.253m |
| A470 Erwd i Glanwye | Powys | Bwriedir cyhoeddi Gorchmynion Drafft yn ystod hydref 2010. Rhagwelir y bydd y Gwaith yn dechrau yn 2011. | £1.1m |
| A470 Llanfair-ym-Muallt | Powys | Bwriedir cyhoeddi'r dewis opsiwn yn ystod hydref 2010. | £0.100m |
| A483 Y Drenewydd | Powys | Bwriedir cyhoeddi'r dewis opsiwn ar ddiwedd haf 2010 | £0.101m |
| A483 Four Crosses | Powys | Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2010. Rhagwelir y daw'r gwaith i ben yn ystod gwanwyn 2011 | £4.400m |
| A40 Rhaeadr Gwy | Powys | Mae'r broses gynllunio yn mynd rhagddi | £0.115m |
| A458 Tal-y-bont | Powys | Mae trafodaethau trawsffiniol â'r Adran Drafnidiaeth yn mynd rhagddynt | £0.080m |
| A487 Porthmadog, | Gwynedd | Dechreuodd y gwaith adeiladu | £25.394m |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Minffordd a Thremadog | | ym mis Ionawr 2010. Daw'r gwaith i ben yn ystod gaeaf 2011 | |
| A487 Caernarfon i Bontnewydd | Gwynedd | Daeth yr Ymgynghoriad Cyhoeddus i ben ar 24/05/10 - mae'r broses gynllunio yn mynd rhagddi | £0.525m |
| A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes | Gwynedd | Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau yn 2011 | £0.409m |
| A470 Gelligemlyn | Gwynedd | Bwriedir cyhoeddi'r Gorchmynion Drafft ar 10.6.10. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod hydref 2011 | £0.349m |
| A487 Cyffordd Tesco | Ceredigion | Bwriedir i'r gwaith ddechrau yn ddiweddarach eleni. | £0.700m |
| A487 Glandyfi | Ceredigion | Daeth y gwaith o glirio'r safle i ben ym mis Chwefror 2010. Bydd y broses dendro yn dechrau'n fuan. | £0.750m |
| A477 Sanclêr i Ros Goch | Sir Gaerfyrddin | Mae'r broses gynllunio yn mynd rhagddi | £1.756m |
| A40 Penblewyn i Slebets | Sir Benfro | Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2009, daw'r gwaith i ben yn ystod gwanwyn 2011 | £13.045m |
| A40 The Kell | Sir Benfro | Dechreuodd y gwaith adeiladu yn ystod gwanwyn 2010. Disgwylir i'r gwaith ddod i ben ar ddechrau 2011 | £0.900m |